Beibl i Blant
yn cyflwyno



# Dechrau'r Eglwys

Awdur: Edward Hughes

Lluniau gan: Janie Forest

addaswyd gan: Ruth Klassen

Cyfieithydd: Catrin Roberts

Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

©2017 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.



Ar ôl i Iesu farw, aeth ei ffrindiau i guddio achos bod ganddyn nhw ofn. Yna daeth Iesu yn ôl yn fyw, a mynd at ei ddisgyblion.  Roedd Iesu'n fyw! Ond roedd Iesu am eu gadael nhw a mynd yn ôl i'r nefoedd at Dduw ei Dad.



Cyn gadael, addawodd Iesu y byddai'n anfon Ffrind a Help iddyn nhw – yr Ysbryd Glân (Ioan 15:26).



Roedd hi bron yn amser i hynny ddigwydd! Ychydig ddyddiau ar ôl i Iesu eu gadael, cyrhaeddodd yr Ysbryd Glân.


Dyma beth ddigwyddodd.  Roedd tua 120 o ffrindiau Iesu yn gweddio gyda'i gilydd mewn tŷ.  Yn sydyn roedd y tŷ yn llawn o sŵn gwynt cryf yn chwythu.

Roedd rhywbeth tebyg i fflamau tân yn gorffwys ar ben pob un ohonyn nhw.



Cawson nhw eu llenwi gyda'r Ysbryd Glân - yn union fel oedd Iesu wedi dweud.



Allan yn y strydoedd, roedd dilynwyr Iesu yn siarad ieithoedd doedden nhw erioed wedi eu dysgu.



Roedd ymwelwyr o wahanol wledydd yn Jerwsalem yn clywed y disgyblion yn siarad mewn gwahanol ieithoedd am y pethau rhyfeddol roedd Duw wedi'u gwneud.



Roedd yr ymwelwyr hyn yn rhyfeddu. “Beth sy’n mynd ymlaen?” meddai rhai. “Maen nhw wedi meddwi,” meddai eraill.



Ond dywedodd Pedr, "Dydy'r bobl hyn ddim wedi meddwi... beth sy'n digwydd ydy beth soniodd y proffwyd Joel amdano,"

...



... bod Duw wedi dweud y byddai'r Ysbryd Glân yn dod i fendithio a helpu pobl.



Dywedodd Pedr wrth y bobl fod yn rhaid iddyn nhw droi cefn ar eu pechod a chael eu bedyddio fel arwydd eu bod yn perthyn i Iesu'r Meseia. "...wedyn byddwch chi'n derbyn yr Ysbryd Glân yn rhodd," meddai.



Fe wnaeth tua 3000 o bobl wrando arno a dod yn ddilynwyr i Iesu.  Mewn amser, daeth mwy a mwy o bobl yn rhan o'r eglwys yr oedd Duw wedi ei chychwyn ar y diwrnod ddaeth yr Ysbryd.



Cafodd pobl Dduw bŵer newydd ar ôl i'r Ysbryd gyrraedd. Un diwrnod aeth Pedr ac Ioan i fyny i'r cyfarfod gweddi yn y deml.



Roedd dyn oedd ddim yn gallu cerddded yn eistedd wrth fynedfa i'r Deml. Gofynnodd i Pedr ac Ioan am arian.





Dywedodd Pedr, “Does gen i ddim arian i’w roi i ti, ond cei di beth sydd gen i i’w roi. Dw i’n dweud hyn gydag awdurdod Iesu y Meseia o Nasareth, cod ar dy draed a cherdda.”



Gafaelodd yn llaw dde’r dyn a’i helpu i godi. A dyma fe’n sefyll, neidio, a dechrau cerdded! Aeth i mewn i’r deml gyda nhw, yn neidio ac yn moli Duw.

Dyma dyrfa fawr yn casglu, wedi synnu wrth weld y wyrth. Dywedodd Pedr mai pŵer Duw oedd wedi gwella'r dyn cloff, nid eu pŵer nhw.



Pan ddechreuodd Pedr atgoffa'r Iddewon hyn fod Duw wedi gwneud Iesu yn fyw eto, dyma arweinwyr y Deml yn arestio'r ddau a'u rhoi yn y carchar.



Ond roedd tua 5000 o bobl wedi dechrau credu yn Iesu.



Y diwrnod wedyn, cafodd Pedr ac Ioan eu galw o flaen arweinwyr y Deml. “Pa bŵer, neu pa enw wnaethoch chi ei ddefnyddio i wneud hyn?”




Atebodd Pedr yn ddewr, yn llawn o'r Ysbryd Glân, "… Enw Iesu o Nasareth, fe sydd wedi iachau'r dyn yma. Yr Iesu wnaethoch chi ei groeshoelio, ond daeth Duw e'n ôl yn fyw."



Fe wnaeth Pedr ddal ati yn ddewr, "…a does neb arall yn unman sy'n gallu achub pobl."



Doedd yr arweinwyr ddim am i bobl gredu yn Iesu, felly dyma nhw'n bygwth Pedr ac Ioan. "Rhaid i chi beidio dysgu am yr Iesu yma byth eto."



Roedd Pedr wedi bod ag ofn sefyll i fyny dros Iesu.

Ond roedd hynny cyn i'r Ysbryd ddod. Erbyn hyn doedd neb na dim yn gallu ei ddychryn.



Atebodd Pedr ac Ioan, "Beth fyddai Duw am i ni wneud? Allwn ni ddim stopio sôn am y pethau dyn ni wedi eu gweld a'u clywed."

Dyma'r arweinwyr yn eu bygwth eto, ond yna cawson nhw eu gollwng yn rhydd. Aeth Pedr ac Ioan yn ôl at eu ffrindiau a dweud yr hanes i gyd. Yna dyma nhw'n gweddïo …



... gyda'i gilydd a moli Duw. Unwaith eto cafodd pobl Dduw eu llenwi gyda phŵer yr Ysbryd Glân - a dechreuodd yr eglwys ifanc dyfu a thyfu.



# Dechrau'r Eglwys

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Actau 1-4

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

# Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: *Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.*

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16